# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>19 HYDREF 2022 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY,<br>19 OCTOBER 2022 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM,** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis,
Llio A. Owen, Alwen Watkin, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats*)*
R. Llewelyn Jones ***(Cadeirydd)***

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /
CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgr Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022.

**3 TLODI AC HERIAU'R ARGYFWNG COSTAU BYW** (Tudalennau 9 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22** (Tudalennau 27 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**5 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 59 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts.<br><br>Aelod Cyfetholedig – Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd  Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Gary Pritchard (Aelod Portffolio ar gyfer Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuenctid), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Busnes (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (GP)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Llinos Medi Huws (Arweinydd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr John R. Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau), Mr Rhys Davies (Aelod o'r Pwyllgor Safonau) (presennol fel sylwebyddion) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini ac estynnodd groeso arbennig i Mr John Tierney a oedd yn bresennol am y tro cyntaf fel cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Llio Angharad Owen ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 4, oherwydd natur ei chyflogaeth.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CHWARTER 1 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD), yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2022/23, i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Prif Weithredwr fod adroddiad monitro'r cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad y dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd gan y Cyngor – cyfuniad o ddangosyddion a osodwyd yn lleol ac yn genedlaethol – wrth iddo gyflawni ei weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor reoli perfformiad yn rhagweithiol ac mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud newidiadau ac i roi gweithredoedd lliniaru ar waith y mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno arnynt er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor, fel y'u nodir yn yr adroddiad, a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2028 pan gaiff ei fabwysiadu yn ddiweddarach eleni. Mae'r canlyniadau yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol, gan olygu y bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau perfformiad o chwarter i chwarter, gan gychwyn yn Chwarter 2.

Wrth ddweud fod y cerdyn sgorio yn adlewyrchu darlun cadarnhaol ar y cyfan, nododd y Prif Weithredwr y gellir gwella perfformiad ymhellach mewn rhai meysydd a bod rhaid i'r gwelliannau hynny ddigwydd mewn hinsawdd o ansicrwydd, lle mae'r galw am rai meysydd gwasanaeth yn cynyddu er nad yw capasiti ac adnoddau yn cynyddu. Mae adran rheolaeth ariannol yr adroddiad yn nodi'r risgiau a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a byddant yn cael eu monitro'n ofalus wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu meysydd lle gwelwyd perfformiad cadarnhaol, gan gynnwys nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden; nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd; y dangosyddion digartrefedd; tri o'r pedwar targed rheoli gwastraff yn perfformio'n well na'r targed; pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn perfformio'n well na'r targed ar gyfer y chwarter a gwelliant parhaus yng nghyflwr lonydd dosbarth A, B ac C yr Ynys. Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn effro i risgiau a/neu feysydd lle gellir gwella perfformiad ac yn eu monitro, er enghraifft, nifer yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser. Serch hynny, mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 yn rhoi sicrwydd fod gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor wrth reoli ei bobl, ei gyllid a'i wasanaethau cwsmer yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau i safon briodol.

Ymatebodd y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor a nodwyd y canlynol -

- Cydnabuwyd y gallai cynnal perfformiad cadarnhaol ar y lefel hon fod yn anodd yn ystod cyfnod o heriau ac ansicrwydd cynyddol, yn arbennig yn sgil cynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor wrth i fwy o bobl wynebu pwysau ar gostau byw. Mae unigolion yn ogystal â phlant a theuluoedd nad oeddent efallai angen mynediad i wasanaethau'r Cyngor cyn hyn yn troi at y Cyngor am gyngor a chymorth ac mae hynny, yn ei dro, yn rhoi pwysau ar wasanaethau wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Felly, bydd cynnal y canrannau perfformiad a nodir yn yr adroddiad yn her gan nad yw cyllid ychwanegol bob amser ar gael a, pha un bynnag, nid yw bob amser yn arwain at gapasiti ychwanegol ac

mae'r farchnad lafur heriol yn golygu fod recriwtio yn anos. Er ei bod felly'n anos cynnal perfformiad ar y lefelau presennol, disgwylir y bydd effaith gwirioneddol yr argyfwng costau byw yn fwy amlwg yn Chwarter 2 a 3.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn bwysig cofio fod pobl tu ôl i'r ystadegau ac er bod data rhifiadol yn rhoi cipolwg o'r canlyniadau a'r deilliannau, mae profiadau pobl yn bwysig o ran cael dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a beth sydd angen ei wella.

- Mewn perthynas â recriwtio, nodwyd fod rhai meysydd yn fwy heriol nag eraill, yn enwedig gofal cartref. Mae'r Cyngor yn ceisio defnyddio dulliau gwahanol i gynorthwyo gyda recriwtio gan gynnwys gweithio gyda Choleg Menai er mwyn i fyfyrwyr ar y cwrs Gofal a Lles gael profiad o'r Cyngor. Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio yn y sector gofal yn amrywiol ac maent yn cynnwys tâl a statws, natur gynyddol arbenigol y gwaith a'r oriau anghymdeithasol. Serch hynny, mae prosesau ar waith gan Gyngor Sir Ynys Môn i asesu gwerth swyddi gofal ac mae hynny wedi caniatáu iddo gynnig cyflogau sy'n gystadleuol iawn ar gyfer y math hwn o waith. Fel sefydliad, mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i rannu gwybodaeth am lwybrau gyrfa posib yn yr awdurdod lleol ac mae wedi rhoi ymgyrch recriwtio gadarn ar waith ym mhob gwasanaeth sydd yn dechrau dwyn ffrwyth yn awr. Yn ogystal, ni ellir tanbrisio effaith y pandemig ar recriwtio ac mae gweithwyr wedi gorfod ail-arfarnu eu blaenoriaethau a'u disgwyliadau o ran hyblygrwydd, oriau gwaith a chydbwysedd. Er bod rhai meysydd yn parhau i fod yn heriol recriwtio iddynt, er enghraifft, yn y sector gofal sydd yn faes lle gwelwyd heriau yn gyson yn lleol ac yn genedlaethol, dangosodd ymholiadau fod y Cyngor mewn safle llawer gwell na nifer o'i gyfoedion o ran recriwtio.
- Rhoddwyd sicrwydd fod cynnydd a phrydlondeb asesiadau plant, sydd yn is na'r targed o ran perfformiad ar hyn o bryd, yn cael eu monitro'n agos. Yn ogystal â chynnydd yn nifer yr asesiadau plant, mae achosion yn dod yn fwy cymhleth. Mae perfformiad yn ystod Chwarter 1 wedi dioddef oherwydd bylchau mewn staffio ac oherwydd cyfuniad o absenoldebau a chynnydd mewn atgyfeiriadau. Mae'r problemau staffio wedi gwella yn awr, gyda chymorth arian grant, ac mae hyn wedi caniatáu i'r Cyngor gyflogi dau Weithiwr Cymdeithasol ychwanegol a'r disgwyl yw y bydd hyn yn arwain at wella perfformiad yn Chwarter 2. Os bydd lefel y galw'n aros yn uchel ar ddechrau'r gaeaf, mae arian grant ar gael i gadw gweithwyr cymdeithasol asiantaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r gofynion.
- Cadarnhawyd nad yw plant ond yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Mae'r Dangosydd yn dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd nifer uchel o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am amser hir; mae'r nifer wedi gostwng ers hynny a disgwylir i hanner y garfan hon gael eu dadgofrestru'n ddiogel yn ystod yr wythnosau nesaf. Er bod nifer o resymau dros newid lleoliad plentyn sy'n derbyn gofal e.e. oherwydd newid yn eu hanghenion, hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gostyngiad pellach yn nifer y plant sy'n cael eu symud i leoliad gwahanol a hynny gyda chymorth ystod well o wasanaethau ac opsiynau cefnogi ar yr Ynys.
- Eglurwyd nad yw'r data yn rhoi'r darlun llawn am berfformiad ac er bod y graddfeydd Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG) a gyflwynwyd yn rhoi sicrwydd am berfformiad y Cyngor, mae tystiolaeth anecdotaidd ac adborth gan gwsmeriaid yn bwysig er mwyn darparu cyd-destun i ddata meintiol, yn enwedig mewn meysydd lle gwelwyd cwynion e.e. amseroedd ateb y ffôn. Er bod data perfformiad a gedwir gan y Cyngor yn dangos fod amseroedd ymateb yn dda, mae'n bwysig fod Cynghorwyr yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt am broblemau o ran amseroedd ateb galwadau ffôn fel y gellir eu cymharu â ffigyrau'r Cyngor ei hun er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiad y cwsmer a sut y gellir ei wella ymhellach.
- Cadarnhawyd fod y Cyngor yn ail-osod 260 o dai y flwyddyn gydag amser trosi o 24 wythnos. Gall gymryd mwy o amser i osod hen dai cyngor a brynwyd yn ôl oherwydd bod rhaid caniatáu amser i gwblhau gwaith adnewyddu fel eu bod yn cwrdd â Safonau

DRAFT

Ansawdd Tai Cymru. Er mai 170 diwrnod yw'r meincnod cenedlaethol ar gyfer cwblhau gwaith o dan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, hysbyswyd y Pwyllgor fod nifer yn cael eu cwblhau mewn llai o amser. Os yw achosion yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau, y rheswm fel arfer yw cymhlethdod y gwaith a bod angen amser i ystyried a chytuno ar y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion dan sylw.

Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion edrych ar amseroedd cyflawni'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl gyda golwg ar ostwng y ffigyrau ymhellach.

- Eglurwyd fod y Gwasanaeth Tai'n gweithio'n agos â pherchnogion preifat i'w perswadio i ddod ag eiddo gwag, sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis, yn ôl i ddefnydd, a hynny gyda chymorth arian grant a/neu fenthyciadau. Os yw tai yn wag yn y tymor hir yna codir y premiwm tai gwag arnynt. Er bod gorfodaeth yn opsiwn, mae'n well gan y Gwasanaeth weithio'n adeiladol gyda pherchnogion preifat i'w hannog i weithredu a'r targed blynyddol yw dod â 70 eiddo yn ôl i ddefnydd.

  Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol derbyn gwybodaeth am nifer yr eiddo preifat sy'n wag am chwe mis neu fwy.

**Ar ôl ystyried adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 2022/23 a'r eglurhad a sicrwydd a dderbyniwyd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio ar lafar yn ystod y cyfarfod, ac wedi cydnabod y perfformiad cadarnhaol y mae nifer ac ystod y graddau RAG Gwyrdd yn tystio iddo, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol ac argymell y mesur lliniaru mewn perthynas ag asesiadau plant i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Gweithredu ychwanegol – bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth gan y Gwasanaeth Tai am nifer yr eiddo preifat sy'n wag am chwe mis neu fwy.**

**4 ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi cynnydd a datblygiadau hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn y Gwasanaethau Oedolion. Roedd yr adroddiad yn nodi hefyd y gwaith a gyflawnwyd gan y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod Chwarter 1 2022/23, gan gynnwys crynodeb o'r materion a ystyriwyd yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf a 12 Medi 2022.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'n parhau ochr yn ochr â chyflawni cyfrifoldebau statudol o ddydd i ddydd. Cyfeiriodd at rai o'r mentrau sy'n cael eu datblygu ac sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, fel a ganlyn -

- Llwyddwyd i benodi i'r swydd newydd, Rheolwr Gwasanaeth – Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Ieuenctid a Llesiant Pobl Ifanc, ac mae'r swydd yn pontio'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys gwireddu'r weledigaeth i fod yn Ynys sy'n Wybodus o Drawma, gan gwmpasu ysgolion, y Blynyddoedd Cynnar, y Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Maethu a'r Timau Gwaith Cymdeithasol.
- Rhoi dull integredig ar waith – y Model Ysgolion Rhithwir – er mwyn gwella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn unol ag argymhellion adolygiad Syr Alasdair Macdonald o ffyrdd o wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal trwy roi dull integredig ar waith ar draws Cymru.

- Ymestyn Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru i gynnwys 49 o blant ychwanegol ar Ynys Môn yn ystod 2022/23 fel rhan o'r cam cyntaf. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos â darparwyr gofal plant a rhieni/gofalwyr yn yr ardal Dechrau'n Deg newydd.
- Cyflawni targed Maethu Cymru Môn ar gyfer recriwtio teuluoedd maeth yn ystod 2021/22 tra'n canolbwyntio ymdrechion ar gadw gofalwyr maeth hefyd, sydd i'w weld yn gwella, gan olygu bod nifer y Teuluoedd Maeth a gymeradwywyd ac a gofrestrwyd gyda'r Cyngor yn cynyddu'n raddol.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion drosolwg o weithgareddau yn y Gwasanaethau Oedolion yn ystod y cyfnod ers y diweddariad diwethaf, gan gynnwys –

- Penodi Rheolwr Trawsnewid a Datblygu i weithio ar nifer o brosiectau, gan gynnwys y Rhaglen Anableddau Dysgu.
- Cwblhau adolygiad Archwilio Mewnol cadarnhaol ar Daliadau Uniongyrchol.
- Datblygu ystod o weithgareddau cymunedol yng Nghaergybi gan weithio ochr yn ochr â Boston Centre Stage.
- Rhoi trefniadau cronfeydd cyfun ar waith gyda BIPBC i gefnogi pecynnau gofal ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Sefydlu Canolfan Dementia sy'n cynnig gwasanaethau dementia pwrpasol ar gyfer unigolion a gofalwyr.
- Uno gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt y Gwasanaethau Oedolion a Theulu Môn er mwyn ffurfio un pwynt mynediad, neu ddrws ffrynt, integredig.
- Cynyddu ymdrechion i recriwtio gweithwyr gofal cartref a chartrefi gofal gydag ymgyrch hysbysebu ar gerbydau'r Cyngor er mwyn hyrwyddo gyrfa mewn Gofal Cymdeithasol.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad fel tystiolaeth o gynnydd a wnaed a thynnodd sylw at nifer o agweddau i'w canmol yn neilltuol, ac yn arbennig llwyddiant yr ymgyrch i recriwtio Gofalwyr Maeth, y fenter cronfeydd cyfun gyda'r Bwrdd Iechyd a'r dull creadigol a dyfeisgar o fynd i'r afael â phroblemau a goresgyn anawsterau. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod rhaid costio pob cynllun/newid yn llawn a bod rhaid iddynt fod yn gost effeithiol yn ogystal â gwella ansawdd ac effeithiolrwydd.

Er bod cyllid yn ffactor bob amser, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth yn ofalus o ran ei wariant a'i fod yn defnyddio adnoddau yn y gymuned os yw'n gallu gwneud hynny. Er bod nifer o'i gyfrifoldebau yn statudol, sy'n golygu mai dim ond y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gallu eu cyflawni, mae'n ceisio canfod atebion creadigol i'r heriau sy'n ei wynebu, gan gynnwys bod yn barod ar gyfer y gaeaf gan wybod y gallai problemau annisgwyl godi, megis tymor ffliw difrifol a'i effaith bosib ar absenoldebau staff. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau fod mesurau ar waith a rhoi sicrwydd y gellir cyflawni'r gwasanaethau a gynlluniwyd. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos hefyd â'r Gwasanaeth Cyllid a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion priodol.

Nododd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Ieuenctid, fod y Cyngor yn aml ar flaen y gad o ran datblygu syniadau a mentrau newydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a bod nifer ohonynt yn canolbwyntio ar ataliaeth a'u bod, o'r herwydd, yn arbed arian drwy leihau'r angen i blant ddod i mewn i'r system ofal yn y lle cyntaf.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, fod angen ateb gwleidyddol ar gyfer y problemau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ofal cymdeithasol o ran sylw gwleidyddol a buddsoddiad, yn arbennig o ystyried yr heriau sydd o'n blaenau.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd –**

- **Cadarnhau fod y Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma ym maes y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod**
- **Y Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau ym maes y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.**

## 5 PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid yn ystod Chwarter 1 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel wedi cyfarfod ar dri achlysur yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf pan gytunwyd ar gylch gorchwyl a chyd-destun gwaith y Panel, ac ystyrir fod hynny'n arbennig o berthnasol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Trafodwyd cynllunio'r rhaglen waith ar gyfer y chwe mis nesaf hefyd. Roedd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf yn canolbwyntio ar broses gosod cyllideb 2023/24, gan gynnwys y broses ymgynghori flynyddol. Cynhaliwyd gweithdy sgriwtini o dan arweiniad CIPFA Cymru am ran o gyfarfod y Panel ar 8 Medi ac edrychodd y Panel yn fanwl hefyd ar y wybodaeth monitro'r gyllideb ddiweddaraf ar gyfer Chwarter 1 2022/23.

Gan fod y rhan fwyaf o aelodau'r Panel yn aelodau sydd wedi cael eu hethol am y tro cyntaf ym mis Mai 2022, esboniodd y Cynghorydd Roberts y bydd rhaid creu'r amodau i bob Aelod gyfranogi'n llawn yng ngwaith sgriwtini'r Panel, gan gynnwys gwneud defnydd llawn o'r flaen raglen waith i sicrhau mewnbwn priodol ac amserol i gefnogi aelodau'r Panel.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd cychwynnol hyd yma mewn cysylltiad â gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid.**

## 6 GRŴP LLYWIO GWASTRAFF GYDA'R RHAGLEN WEITHREDU GWASTRAFF AC ADNODDAU (WRAP) CYMRU

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn ceisio cytundeb y Pwyllgor i enwebu Aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y Grŵp Llywio wedi'i sefydlu i liniaru'r tanberfformiad presennol mewn perthynas â chanran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio gan y Cyngor, fel y tystiwyd yn yr adroddiad Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2021/22 a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Mehefin 2022. Mae'r aelodau'n cynnwys uwch Aelodau, uwch Swyddogion a phartneriaid o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru ac mae cylch gorchwyl y grŵp wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Llio Angharad Owen fel cynrychiolydd y Pwyllgor hwn ar y Grŵp Llywio gyda WRAP Cymru.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 2022/23 i'w ystyried.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Hydref 2022 a chadarnhaodd y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod hwnnw.

**Penderfynwyd –**

DRAFT

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Hydref, 2022** |
| **Pwnc:** | **Tlodi a'r Heriau Costau Byw** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ar gais y Pwyllgor, ystyried y:**<br>1. **Cyd destun tlodi a'r heriau costau byw**<br>2. **Budd–daliadau a chefnogaeth ariannol**<br>3. **Cynllun cinio ysgol am ddim**<br>4. **Cynlluniau ataliol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams, Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer**<br>**Cyng Ieuan Williams, Deilydd Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg**<br>**Cyng Alun Mummery, Deilydd Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**<br>**Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Nodi'r cynlluniau ac ymyraethau mewn lle i gefnogi unigolion a chymunedau Ynys Môn drwy'r argyfwng costau byw<br>**A2** Gynnig sylwadau ar wydnwch a digonolrwydd y cynlluniau ac ymyraethau ar waith i gefnogi pobl yr Ynys. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae yna gyswllt uniongyrchol â Chynllun presennol y Cyngor:<br>• Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>• Amcan 2: Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-** |

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

i. I ba raddau mae'r ymyraethau cenedlaethol i gynorthwyo unigolion gydag heriau costau byw yn ddigonol wrth gefnogi unigolion a chymunedau Ynys Môn?
ii. I ba raddau mae'r Cyngor yn chwarae rôl gyflawn ac effeithiol wrth gefnogi unigolion a chymunedau sy'n wynebu caledi ariannol?
iii. Pa fylchau neu feysydd sydd angen i'r Awdurdod eu hystyried ymhellach wrth gynllunio ymlaen?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cyd-destun Tlodi a'r heriau costau byw**

**1.1** Mae costau byw wedi bod yn cynyddu ar draws y Ddeyrnas Unedig ers dechrau 2021. Cyrhaeddodd y gyfradd chwyddiant flynyddol 9.9% ym mis Awst, 2022 a oedd yn agos at uchafbwynt 30 mlynedd. Gwelwyd hyn yn cael effaith wirioneddol ar fforddiadwyedd nwyddau a gwasanaethau i aelwydydd gan fod prisiau ar gyfer llawer o nwyddau hanfodol yn cynyddu'n gyflymach nag incwm aelwydydd.

**1.2** Teg dweud fod yr argyfwng costau byw ym Mhrydain (megis costau bwyd, ynni a thanwydd) yn parhau i fod yn realiti beunyddiol i bawb – yn unigolion, teuluoedd, cymunedau, busnesau a chyrff eraill ar Ynys Môn.

**2. Budd-daliadau a Chefnogaeth Ariannol ar gael i gynorthwyo unigolion yn wynebu caledi ariannol**

**2.1** Mae yna gyfrifoldeb ar y Cyngor i gynorthwyo unigolion sy'n wynebu caledi ariannol a hynny mewn nifer o ffyrdd ee budd-dâl tai, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, cinio ysgol am ddim i enwi rhai o'r ymyraethau.

**2.2** O fis Mawrth, 2020, daeth nifer o ymyraethau ychwanegol ar lefel genedlaethol yn sgil Pandemig Covid-19 a hynny er mwyn cefnogi unigolion yn wynebu caledu oherwydd effaith y Pandemig. Gweinyddwyd rheiny gan yr Awdurdod Lleol ee taliad wythnosol ar gyfer disgyblion a fyddai'n arferol yn derbyn cinio ysgol am ddim.

**2.3** Yn fwy diweddar, gwelwyd y Llywodraeth yn cyflwyno nifer o ymyraethau pellach i gynorthwyo unigolion cymwys i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae'r rheiny'n gyfres o daliadau unwaith ac am byth i gefnogi unigolion ac maent yn ychwanegol at y gefnogaeth arferol ar gael.

Mae **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn yn manylu ar yr ymyraethau uchod a hefyd y trefniadau gweinyddol yn lleol i brosesu ac yna'r trefniadau taliadau i unigolion cymwys yn amserol.

**3. Cynllun Cinio Ysgol am Ddim**

**3.1** Mae rhaglen cinio ysgol am ddim yn ymyrraeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru i geisio lleihau tlodi bwyd ymhlith plant oed cynradd. Bydd yn sicrhau mynediad pob plentyn ysgol gynradd at ginio am ddim erbyn mis Medi, 2023. Manylir ar y cynllunio ar gyfer gwireddu'r cynllun ar Ynys Môn yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn.

**3.2** Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf – cynllun sydd wedi bod yn rhedeg ers 3 blynedd i ddarparu addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iachus i blant mewn ardaloedd amddifadedd cymdeithasol (**Atodiad 2** yn manylu).

**4. Cynlluniau Ataliol**

**4.1** Er bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar bawb yng Nghymru, y cartrefi incwm isel sy'n cael eu taro galetaf. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu nifer o wasanaethau ac ymyraethau lleol sy'n ychwanegu at yr ymyraethau gan Lywodraeth y Ddeyrnes Unedig a Llywodraeth Cymru – llawer ohonynt mewn partneriaeth â chyrff lleol eraill.

| |
|---|
| **4.2 Atodiad 3** i'r adroddiad hwn sy'n manylu ar sut a lle mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ac ymyraethau lleol (yn aml mewn partneriaeth â chyrff eraill) i leihau effaith tlodi ar Ynys Môn, o dan y penawdau tlodi canlynol:<br><br>• **Bwyd**<br>• **Tlodi plant**<br>• **Tlodi tanwydd**<br>• **Ddim mewn Addysg na Hyfforddiant (NEETs)**<br>• **Dyled**<br>• **Misglwyf a Hylendid**<br>• **Tlodi mewn gwaith.** |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1:** Budd-daliadau a chefnogaeth Ariannol ar gael i gynorthwyo unigolion yn wynebu caledi ariannol<br>**Atodiad 2:** Cynllun Cinio Ysgol am Ddim<br>**Atodiad 3:** Cynlluniau Ataliol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | BUDD-DALIADAU A CHYMORTH ARIANNOL I GYNORTHWYO UNIGOLION SY'N WYNEBU CALEDI ARIANNOL |
| **Awdur** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| **Dyddiad** | Hydref 2022 |

## 1. Gwybodaeth Gefndir

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynorthwyo pobl sy'n profi caledi ariannol mewn amryw o ffyrdd:-

- Asesu a thalu ceisiadau am fudd-dal tai;
- Asesu ceisiadau o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;
- Asesu ceisiadau a dyfarnu cymorth ariannol trwy'r cynllun Taliadau Tai Dewisol;
- Dyfarnu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys;
- Dyfarnu grantiau gwisg ysgol;
- Cynorthwyo preswylwyr i reoli eu dyledion drwy'r Tîm Cynhwysiant Ariannol Tai a Chanolfan J.E. O'Toole.

Ym mis Mawrth 2020, oherwydd y pandemig, roedd y Cyngor yn gweithredu nifer o gynlluniau ar ran Llywodraeth Cymru i gynorthwyo trigolion a oedd yn profi caledi ariannol o ganlyniad i Covid. Roedd hyn yn cynnwys:-

- Talu swm penodol bob wythnos i ddisgyblion a oedd yn arfer derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd y taliadau'n cael eu gwneud yn ystod y cyfnod pan fu'n rhaid i ysgolion gau oherwydd rheoliadau Covid a drwy gydol gwyliau'r ysgol.
- Gwneud taliadau i breswylwyr oedd yn gorfod hunanynysu oherwydd Covid ac a oedd yn methu cyflawni eu swyddi arferol.

Wrth i'r pandemig Covid leddfu, dechreuodd yr argyfwng costau byw ac roedd y Cyngor yn parhau i weinyddu cynlluniau Llywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i ddarparu cymorth ariannol i'r rhai oedd ei angen fwyaf. Mae'r cynlluniau ariannol ychwanegol hyn fel a ganlyn:-

- Parhau gyda thaliadau i'r disgyblion hynny oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol. Mae nifer y ceisiadau am brydau ysgol am ddim wedi codi o thua 1,200 cyn Covid i dros 2,000 ar hyn o bryd.
- Taliad costau byw gwerth £150 i aelwydydd cymwys yn ystod haf 2022.
- Roedd tua 23,000 eiddo yn gymwys o dan y cynllun hwn.
- Talu Taliadau Tanwydd y Gaeaf i aelwydydd cymwys yn ystod gaeaf 2021/22 ac wedyn yn yr Hydref, 2022.
- Sefydlu a gweinyddu cynllun costau byw dewisol i gynorthwyo'r rhai oedd dal angen cymorth ariannol neu'r rheiny nad oeddent wedi derbyn taliad costau byw am resymau technegol (wedi eu heithrio rhag talu Treth Gyngor, ddim yn meddiannu'r eiddo ar y dyddiad cymwys).

Mae'r cynlluniau untro hyn yn ychwanegol i'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir fel rheol.

## 2. Gweinyddu'r Cynlluniau

Mae cyfrifoldeb am gyflwyno'r cynlluniau ychwanegol hyn wedi disgyn yn bennaf ar grŵp bychan o staff yn y Timau Budd-daliadau Tai, Treth Gyngor a'r Tîm Taliadau ac, i raddau llai, staff yn y gwasanaeth Tai a Chanolfan J.E. O'Toole.

Fel rhan o'r trefniadau gweinyddol, mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllideb i gwrdd â'r costau gweinyddu. Oherwydd natur dros dro'r cynlluniau hyn a'r brys i'w cyflwyno, ni fu'n bosib penodi a hyfforddi staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith ychwanegol hwn ac mae'r Cyngor wedi defnyddio'r cyllid i:-

- Is-gontractio rhywfaint o'r gwaith asesu neu brosesu taliadau i gwmnïau allanol.
- Cyflogi staff asiantaeth i ddarparu adnoddau ychwanegol yn y Timau sy'n cael eu heffeithio fwyaf. Serch hynny, roedd canfod staff asiantaeth addas yn her ac nid oedd y Cyngor yn llwyddiannus ar bob achlysur.

Mae angen sefydlu system unigol ar gyfer pob cynllun er mwyn delio gyda cheisiadau, creu taliadau a rho cyfrif am wariant. Serch hynny, mae lefel sylweddol o waith wedi cael ei greu oherwydd yr angen i ddelio gyda cheisiadau anghyflawn, nodi ceisiadau dyblyg, delio gydag ymholiadau gan ymgeiswyr ynghylch pryd fyddant yn derbyn eu taliadau neu pam y gwrthodwyd eu ceisiadau. Mae'r ymholiadau hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn galwadau ffôn a gohebiaeth, yn ychwanegol i'r gwaith sydd angen ei wneud i asesu'r cais a gwneud y taliad.

Dim ond trwy waith caled ac ewyllys da nifer fechan o staff y mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r dasg a sicrhau fod y cymorth ariannol wedi cael ei roi i'r rhai oedd ei angen fwyaf.

## 3. Casgliad

Ers cychwyn yr argyfwng costau byw, mae'r Cyngor wedi dosbarthu dros 44,000 o daliadau unigol gwerth cyfanswm o £4.7m. Amcangyfrifir y bydd 18,700 o daliadau pellach, gwerth dros £2m, yn cael eu dosbarthu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r angen i weinyddu'r cynlluniau untro ychwanegol hyn wedi effeithio ar allu'r Cyngor i ddelio gyda gwaith arferol o ddydd i ddydd ac mae gwaith wedi pentyrru o'r herwydd, yn arbennig yn yr Adran Dreth Gyngor a fu'n gyfrifol am gyflawni rhan sylweddol o'r gwaith ychwanegol.

Pan ddaw'r angen i ddarparu'r cymorth ariannol untro ychwanegol hwn i ben, bydd gwaith yn parhau i ddarparu cymorth i'r rhai hynny sydd â'r angen ariannol mwyaf trwy'r Tîm Budd-daliadau Tai (Budd-daliadau Tai, Ceisiadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, prydau ysgol am ddim, grantiau datblygu disgyblion) a thrwy waith y Tîm Cynhwysiant Ariannol a Chanolfan J.E. O'Toole.

**ADRODDIAD TLODI - YSTADEGAU 2022/23**

| Cynllun | Cymorth ariannol yn cael ei ddarparu | Meini Prawf Cymhwyso | Wedi'i ariannu gan | Cyllideb | Amcangyfrif o'r nifer sy'n gymwys am Gymorth | Cyfanswm nifer y taliadau a wnaed hyd yn hyn | Cyfanswm Gwerth y Taliadau a Wnaed hyd yma | Amcangyfrif o'r nifer o daliadau'n weddill i'w gwneud | Amcangyfrif o'r Cyfanswm Gwerth y Taliadau i'w Wneud | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £ | | | | | | |
| Taliadau Tanwydd Gaeaf 21/22 | £200 yr Aelwyd | Yn derbyn budd-daliadau oedran gweithio rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Ionawr 2022 | Llywodraeth Cymru | 1,385,400 | 6,927 | 3,170 | 634,000 | - | - | Roedd y nifer o geisiadau yn isel ar gyfer y cynllun hwn drwy Gymru gyfan. Mae yna nifer fechan o apeliadau sy'n cael eu tasesu. |
| Taliadau Costau Byw - Prif Gynllun | £150 yr Aelwyd | Talwyr Treth Gyngor yn meddiannu eiddo ym Mandiau A - D neu dderbyn help drwy Gynllun Gostyngiad Treth Cyngor mewn unrhyw fand | Llywodraeth Cymru | 3,452,550 | 23,017 | 20,829 | 3,124,350 | 2,157 | 323,550 | Ail-gyhoeddi 266 o dalebau ar 3 Hydref 2022, bydd y 1,891 sy'n weddill yn cael eu hailgyhoeddi ar ôl i ymholiadau rhagorol gael eu clirio |
| Taliadau Costau Byw - Cynllun Dewisol | £150 yr Aelwyd | Pobl wedi'u heithrio rhag Talu Treth Cyngor | Llywodraeth Cymru | 585,000 | O gwmpas 200 | - | - | 200 | 30,000 | Bydd y taliadau naill ai'n cael eu gwneud yn awtomatig neu drwy cais. Bydd ceisiadau yn cael eu delio gan y Tim Tai, Canolfan J.E.O'Toole, CAB neu SAAFA (ceisiadau gan cyn-filwyr). Byddy gyllideb yn cynyddu yn ól gwerth unrhyw danwariant yn y prif gynllun a bydd 2il gam y cynllun dewisol yn cael ei gymeradwyo ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2022 |
| | £150 yr Aelwyd | Pobl sy'n byw mewn llety argyfwng | | | O gwmpas 70 | - | - | 70 | 10,500 | |
| | £150 yr Aelwyd | Gofalwyr Di-dâl | | | O gwmpas 100 | - | - | 100 | 15,000 | |
| | £150 yr Aelwyd | Pobl sy'n byw mewn Llety â Chymorth | | | O gwmpas 50 | - | - | 50 | 7,500 | |
| | £150 yr Aelwyd | Tenantiaid Tai Cymdeithasol mewn eiddo Band E ac uwch | | | O gwmpas 20 | - | - | 20 | 3,000 | |
| | £150 yr Aelwyd | Pobl a symudodd i eiddo cymhwyso ar ôl 15 Chwefror 2022 | | | O gwmpas 100 | - | - | 100 | 15,000 | |
| | Hyd at £300 | Pobl yn gadael llety argyfwng ac yn symud i lety mwy sefydlog | | | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | - | - | Anhysbys | Anhysbys | |
| | Hyd at £300 | Pobl sy'n dioddef caledi ariannol sydd heb fynediad at unrhyw gronfeydd cymorth arall | | | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | - | - | Anhysbys | Anhysbys | |
| | Hyd at £300 | Cyn-filwyr yn dioddef caledi ariannol | | | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | - | - | Anhysbys | Anhysbys | |
| Taliadau Tanwydd Gaeaf 22/23 | £200 yr Aelwyd | Yn derbyn amrywiaeth o fudd-daliadau cymwys rhwng 1 Medi 2022 a 31 Ionawr 2023 | Llywodraeth Cymru | 1,521,000 | 7,605 | - | - | 7,605 | 1,521,000 | Cafodd ceisiadau eu hagor ar 26 Medi 2022 a bydd y taliadau'n dechrau cael eu gwneud yn fuan. |
| Taliadau Tai Dewisol 2022/23 | Amrywiol | Asesir pob cais yn unigol | Adran Gwaith a Phensiynau | 123,008 | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | 99 | 69,063 | Dibynnol ar Nifer yr hawliadau | Dibynnol ar Nifer yr hawliadau | Gwrthododd 77 o geisiadau hyd yma. Mae'n parhau i dderbyn ceisiadau yn ystod gweddill y flwyddyn. |
| Cinio Ysgol am Ddim | £19.50 fesul plentyn fesul wythnos yn ystod cyfnodau gwyliau | Rhiant / Gwarcheidwad yn derbyn Cymorth Incwm, JSA, ESA, UC, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant | Llywodraeth Cymru | Dim cyllideb wedi'i gosod - costau gwirioneddol ad-dalu'n llawn | Ar hyn o bryd tua 2,100 o blant | 19,342 | 377,169 | 8,400 | 163,800 | Mae'r taliadau'n parhau yn ystod y cyfnodau gwyliau yn 2022/23 = 4 wythnos |
| Grantiau Datblygu Disgyblion Mynediad 2021/22 | £125 fesul plentyn. £200 i ddisgyblion blwyddyn 7 | Rhiant / Gwarcheidwad yn derbyn Cymorth Incwm, JSA, ESA, UC, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant | Llywodraeth Cymru | 161,925 | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | 1,303 | 173,300 | - | - | |
| Grantiau Datblygu Disgyblion Mynediad 2022/23 | £225 fesul plentyn. £300 i ddisgyblion blwyddyn 7 | Rhiant / Gwarcheidwad yn derbyn Cymorth Incwm, JSA, ESA, UC, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant | Llywodraeth Cymru | 383,500 | Dibynnol ar hawliadau a dderbyniwyd | 1,499 | 354,900 | Dibynnol ar Nifer yr hawliadau | Dibynnol ar Nifer yr hawliadau | Dyfernir £100 ychwanegol ar gyfer pob cais yn 2022/23 yn unig |
| | | | | | | | | | | |
| | | **CYFANSWM** | | **7,612,383** | | **46,242** | **4,732,782** | **18,702** | **2,089,350** | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |


**ATODIAD 2**

| | |
|---|---|
| **Teitl** | ADRODDIAD CYNLLUN CINIO AM DDIM |
| **Awdur** | Rheolwr Busnes a Pherfformiad y Gwasanaeth Dysgu |
| **Dyddiad** | Hydref 2022 |

Mae'r cynllun newydd cinio am ddim yn mynd i sicrhau bod bob plentyn ysgol gynradd yn cael cinio am ddim erbyn Medi 2023. Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd y plant sydd eisoes yn deilwng am ginio am ddim am y 3 mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Niferoedd yn deilwng am ginio am ddim | % o blant ysgolion Môn yn deilwng am ginio am ddim | % o blant Cymru yn deilwng am ginio am ddim |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 1547 | 17% | 17% |
| 2020/21 | 1879 | 20% | 19% |
| 2021/22 | 2065 | 22% | 23% |

Mae'r map isod yn dangos canrannau cinio am ddim ar gyfer plant cynradd ac uwchradd fesul ward, (Adroddiad Llesiant Gwynedd a Môn 2021);




## 1. <u>Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf</u>

Mae'r cynllun Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) yn gynllun sy'n rhedeg ers tair blynedd ac yn darparu addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iachus i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf.

‘Bwyd a Hwyl’ yw'r brand a ddefnyddir ar lefel leol er mwyn hyrwyddo cynlluniau i blant a theuluoedd.

Mae’r cynllun yn cynnal rhai plant sy’n debygol o fod yn fregus am ran helaeth o wyliau’r haf ac yn cyfrannu at wella eu cymhelliant tuag at ddysgu. Mae plant yn derbyn gweithgareddau egnïol a hwyl am o leiaf tair wythnos dros wyliau’r haf. Mae’r cynllun yn fodd ardderchog i helpu rhieni ysgwyddo costau ychwanegol gwyliau’r ysgol, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a’u rhieni. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Bwrdd Atal Tlodi'r Awdurdod.

## 2. <u>Cynllun Newydd Cinio am Ddim</u>

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i gynnig cinio am ddim i blant ysgolion cynradd ym mis Medi 2023 gan gychwyn gyda’r Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2022 (Ebrill 2023 yn dilyn datganiad y 19$^{eg}$ o Fehefin), mae swyddogion o’r Gwasanaeth Dysgu wedi cydweithio â’r cwmni arlwyo Chartwells a swyddogion o’r Adran Eiddo i wireddu’r cynllun hwn yn ysgolion Môn.

### 2.1 Gwaith Cynllunio

Dechreuodd y gwaith cynllunio ac ymgysylltu ym mis Ionawr 2021. Mae’r gwaith ymgysylltu wedi cynnwys ymgysylltu gyda phenaethiaid drwy ymweliadau safle, llywodraethwyr drwy sesiynau briffio a rhieni a phlant drwy drafodaethau o fewn ysgolion, llythyrau a chyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd asesiad ym mhob ysgol er mwyn adnabod pa offer newydd oedd ei angen ym mhob ysgol, ac os oedd angen unrhyw waith cynnal a chadw. Gwnaethpwyd gwaith modelu ar y ffigyrau cyfredol a oedd yn cymryd prydau ysgol a chynnydd i 60%, 80% a 100%. Yn dilyn yr asesiad hwn, cafodd yr ysgolion eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio’r broses RAG (Red, Amber, Green).

Roedd 11 ysgol wedi eu hadnabod fel ysgolion coch ac angen gwaith cynnal a chadw er mwyn gallu darparu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (erbyn mis Ebrill 2023). Digwyddodd y mwyafrif o’r gwaith cynnal a chadw hwn yn yr ysgolion hyn dros yr haf a’r rhan fwyaf o’r offer wedi cyrraedd y ceginau erbyn mis Medi 2022.

Datblygwyd model staffio newydd, ac mae’r cwmni arlwyo Chartwells wedi addasu oriau i rai o’r staff presennol ac wedi penodi 7 aelod o staff newydd.

### 2.2 Cyllido’r Cynllun

Mae £225m wedi’i ymrwymo gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf, ac maent wedi darparu £25m o gyllid cychwynnol i gefnogi gofynion cyfalaf cynghorau a chynllunio ar gyfer UPFSM yn gyffredinol. Rydym wedi defnyddio ein cyllid i brynu offer cegin wedi’i uwchraddio a mathau eraill o waith sydd eu hangen yn yr ysgolion lle mae’r ceginau angen yr offer i allu darparu’r gwasanaeth.

Mae cyllid i gyflawni’r ymrwymiad i roi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd wedi ei ddyrannu fel a ganlyn (fesul blwyddyn ariannol):

- 2022-23 £40m
- 2023-24 £70m
- 2024-25 £90m

Hyd yn hyn, mae Ynys Môn wedi derbyn grant cyllid cyfalaf o £594,412 i gefnogi dyfarniad cyllid mewn perthynas â'r Grant Ariannu Cyfalaf. Mae'r cyllid wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio methodoleg debyg i'r Grant Gwella Addysg (GGA), yn seiliedig ar niferoedd disgyblion 3 i 18 oed a nifer yr ysgolion yn 2020. Dosrennir y cyllid hwn yn ôl niferoedd disgyblion (70%) a niferoedd ysgolion (30%).

### 2.3 Darpariaeth Medi 2022

Roedd yn ofynnol i bob awdurdod allu darparu prydau am ddim o fis Medi 2022 i bob disgybl y dosbarth Derbyn. Mae Cyngor Ynys Môn wedi gallu ymestyn y cynnig hwn i Flwyddyn 1 hefyd ac rydym yn monitro'r ddarpariaeth er mwyn adnabod pryd y byddai'n bosibl i ni allu ymestyn y cynnig i bob disgybl ym Mlwyddyn 2.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn parhau rhwng y Gwasanaethau Dysgu, Eiddo a Chartwells er mwyn gallu monitro, adnabod a datrys unrhyw faterion yn brydlon. Rydym yn treialu archebu ar-lein gyda 3 ysgol ar hyn o bryd er mwyn gallu cynllunio prydau'n well, ac yn parhau i drafod y gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gweddill yr offer yn cyrraedd yr ysgolion, ac yn cael ei osod heb amharu ar y ddarpariaeth.

Rydym yn monitro niferoedd y cynllun ac yn adrodd yn ôl ar niferoedd yn fisol i Lywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn cymharu niferoedd wythnos y 12fed i'r 16eg o Fedi eleni gyda'r un wythnos llynedd:

| Blwyddyn | Niferoedd o brydau i'r Derbyn a Bl. 1 mewn wythnos | % o blant wedi cymryd pryd |
|---|---|---|
| 2021 (13 – 17 Medi) | 1,490 | 31% |
| 2022 (12 – 16 Medi) | 3,515 | 74% |

Mae'r ffigyrau yn dangos bod niferoedd plant sy'n deilwng am ginio am ddim yn cynyddu'n flynyddol ac mae'r niferoedd sy'n cymryd cinio am ddim i gymharu â phlant oedd yn cymryd cinio pan oedd angen talu wedi cynyddu o 31% i 74%. Mae hyn yn dangos bod y cynllun cinio am ddim i bob plentyn cynradd yn gam pwysig tuag at atal tlodi a sicrhau bod pob plentyn cynradd yn cael o leiaf un pryd poeth y dydd.

## 3. Camau Nesaf

1. Targedu ysgolion lle mae niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol yn isel a cheisio cynyddu niferoedd drwy farchnata ac ymgysylltu.
2. Parhau i gyfarfod yn wythnosol gydag Eiddo a Chartwells er mwyn parhau gyda'r gwaith cynnal a chadw a chynllunio ar gyfer darpariaeth ysgol gyfan o fis Medi 2023.
3. Monitro'r ddarpariaeth a phenderfynu ar ddyddiad ar gyfer cyflwyno i Flwyddyn 2.
4. Parhau i gyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni ysgolion a rhanddeiliaid eraill.
5. Cydweithio gyda gwasanaethau eraill i sicrhau bod plant sy'n deilwng am ginio am ddim o dan yr hen drefn yn parhau i gael eu hadnabod er mwyn derbyn cymorth a chefnogaeth bwrpasol.

| | |
|---|---|
| **Teitl** | YMATEB I HERIAU TLODI |
| **Awdur** | Llinos Williams, Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol |
| **Dyddiad** | Hydref 2022 |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb, unigolion, teuluoedd, cymunedau, busnesau a sefydliadau ar yr Ynys. Yn ogystal â chyflawni ymyraethau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn lleol, mae'r Cyngor Sir yn parhau i ddarparu nifer o wasanaeth cymorth ac ymyraethau, nifer ohonynt ar y cyd â sefydliadau lleol eraill.

Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad llafar ar gostau byw yn y Senedd Ddydd Mawrth 20 Medi 2022 2022 (teitl Diweddariad ar Gostau Byw dyddiedig 20/09/22)

Nodwyd y canlynol mewn adroddiad diweddar gan Sefydliad Bevan, (teitl Cipolwg ar Dlodi dyddiedig Haf 2022)

- Er bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb yng Nghymru, aelwydydd incwm isel sy'n ei chael hi waethaf.
- Mae aelwydydd incwm isel lawer iawn mwy tebygol o orfod gwario llai ar eitemau hanfodol neu fynd i ddyled oherwydd bod costau'n cynnydd nag aelwydydd incwm canolig ac uchel.
- Ym mis Tachwedd 2021, adroddodd **39 y cant o aelwydydd yng Nghymru** (sy'n cyfateb i **12,306 o aelwydydd ar Ynys Môn**) eu bod yn ei chael hi'n anodd prynu dim byd ar wahân i eitemau hanfodol.
- Mae'n debygol bod hyn wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf, yn sgil y cynnydd mewn costau tanwydd ac eitemau hanfodol eraill megis bwyd.
- Mae'n debygol felly y bydd cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru heb lawer o arian i'w wario ar eitemau dewisol.
- Bydd hyn yn cael effaith ar sectorau megis twristiaeth, lletygarwch ac adloniant, sectorau a gafodd ergyd drom yn sgil y pandemig
- Mae'r cynnydd mewn costau yn debygol o gael effaith mwy negyddol ar aelwydydd gwledig nag aelwydydd trefol. Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ddinasyddion Ynys Môn, oherwydd natur wledig yr ardal.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi ble a sut y bydd y Cyngor Sir yn darparu ei wasanaethau a'i ymyraethau (nifer ohonynt mewn partneriaeth) i leihau effeithiau tlodi ar yr Ynys.

## 2. Cyd-destun

Mae Strategaeth Gwrthdlodi CSYM 2018 – 2022 yn amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â thlodi. Cafodd y strategaeth ei datblygu a'i mabwysiadu cyn i effeithiau difrifol a heriau presennol yr argyfwng costau byw ddod yn gyffredin. Cydnabyddir y bydd angen adolygu a diweddaru dull a blaenoriaethau'r Cyngor Sir unwaith y bydd Cynllun newydd y Cyngor wedi cael ei fabwysiadu.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o rai o'r meysydd tlodi y mae trigolion Ynys Môn wedi'u hwynebu ac y maent yn dal i'w hwynebu o hyd. Mae'r tabl yn darparu gwybodaeth am y risgiau a nodwyd a sut yr ydym ni fel Cyngor Sir, ynghyd ag asiantaethau partner hanfodol megis

Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn, banciau bwyd a darparwyr 3ydd sector eraill, yn mynd ati i liniaru'r risgiau hyn.

| Maes Tlodi | Risgiau a Nodwyd | Dulliau Lliniaru |
|---|---|---|
| **Methu fforddio bwyd NEU fethu fforddio bwyd ffres** | Effaith ar blant heb fynediad at fwyd maethlon ac effaith mwy hirdymor ar les, gordewdra.<br><br>Risg i blant sy'n cael cinio ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol.<br><br>Oedolion yn gorfod dewis rhwng bwyd a gwres. Problemau iechyd yn yr hirdymor.<br><br>Anghydraddoldebau iechyd. Cynnydd yn y galw am wasanaethau statudol yn cynnwys digartrefedd, gofal sylfaenol, gwasanaethau oedolion a phlant.<br><br>Cynnydd yn y galw ar fanciau bwyd sydd yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn bennaf. | Banciau bwyd<br><br>Bwyd Da Môn<br><br>Taliadau o'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) mewn argyfwng – os yn gymwys<br><br>Cronfa ddewisol CSYM (ail gam cronfa Llywodraeth Cymru) |
| **Tlodi Plant** | Heriau amddiffyn plant, canlyniadau a chyraeddiadau addysgol is gyda phlant yn dod yn rhan o'r cylch tlodi, canlyniadau iechyd a chymdeithasol negyddol pan fyddant yn oedolion gan arwain at dreulio cyfnodau parhaus yn rhan o wasanaethau statudol, byw bywydau nad ydynt yn iach, canlyniadau cyflogaeth salach. | Teulu Môn<br><br>Lleoliadau addysgol<br><br>Cinio ysgol am ddim a chyllid gwyliau ysgol<br><br>Bwrdd Diogelu Corfforaethol CSYM |
| **Tlodi Tanwydd** | Teuluoedd bregus a phobl o bob oed yn gorfod penderfynu a ydynt am droi'r gwres ymlaen neu fwyta.<br><br>Effaith tlodi tanwydd ar les aelodau o'r cartref yn ogystal â chynnydd mewn problemau cynnal a chadw megis lleithder, a all, yn ei dro, effeithio ar iechyd trigolion o fewn yr eiddo. Problemau iechyd yn gysylltiedig â heriau resbiradol, cylchrediad gwaed ac iechyd meddwl.<br><br>Mwy o berygl y bydd materion iechyd yn effeithio ar nifer y trigolion a fydd | Arian o gronfa caledi'r DAF mewn argyfwng – os yn gymwys<br><br>Cymorth gan y Tîm Cynhwysiant Ariannol / CAB Ynys Môn a Thîm O'Toole<br><br>Talebau tanwydd banc bwyd – mae'r adnodd hwn yn brin ac mae ar gael dim ond os oes angen parsel bwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | angen gwasanaethau statudol, megis gwasanaethau oedolion a/neu blant, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.<br><br>Fe all ôl-ddyledion tanwydd effeithio ar gyllid aelwydydd, ac fe all hyn arwain at ddigartrefedd / dyled hirdymor os nad oes modd rheoli'r ddyled. | Mannau cynnes dan arweiniad y Gymuned<br><br>Cronfa ddewisol CSYM (ail gam cronfa Llywodraeth Cymru)<br><br>Cyllid gan y Llywodraeth Genedlaethol. Er enghraifft, trigolion sydd yn hawlio budd-daliadau penodol yn cael arian ychwanegol<br><br>Cymorth tanwydd y gaeaf i aelwydydd cymwys |
| **Hyfforddiant i bobl ifanc sydd ddim mewn addysg - NEET** | Mwy o berygl o droseddu, dewisiadau bywyd gwael, heriau llesiant, dim ysgogiad, digartrefedd, llai cynhyrchiol, achosion o heriau lles cenedliadol, ac ymyraethau statudol tymor hwy. | Addysg<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid<br><br>Môn CF<br><br>Menter Môn |
| **Dyled** | Achosion llys, digartrefedd, heriau o ganlyniad i ddyled nad oes modd ei rheoli, problemau iechyd yn gysylltiedig â straen a llesiant megis iselder a phryder. | CAB Ynys Môn yw'r unig wasanaeth cynghori ar ddyled ar Ynys Môn. Tra bo'r gwasanaethau Tai'n edrych ar ddatblygu gwasanaeth rheoli dyled ar y cyd â CAB ni fydd yn weithredol am o leiaf 12 mis oherwydd bod rhaid i staff gwblhau cymwysterau yn y maes. |
| **Mislif a hylendid** | Bwlio, aflonyddu, embaras, iechyd meddwl a diffyg hunan barch o ganlyniad i fethu â chynnal hylendid a glendid personol. | Cynnyrch mislif ar gael ym mhob lleoliad addysgol.<br><br>Cynnyrch mislif yn cael eu cynnig gyda pharseli bwyd.<br><br>Cynnyrch mislif mewn meddygfeydd a chanolfannau hamdden ledled Ynys Môn. |

Gair o rybudd - nid yw'r asiantaethau sydd yn delio â'r argyfwng costau byw erioed wedi gorfod delio â'r galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol ar eu gwasanaethau ac felly mae'n rhaid iddynt gael cynlluniau wrth gefn, asesu risgiau yn barhaus a gweithredu ar unrhyw geisiadau am gymorth yn ystod yr argyfwng hwn. Gwelir hyn yn y dadansoddiad data isod.

Trosolwg o'r galw ar CAB Ynys Môn (Ionawr - Medi 2021 ac Ionawr - Medi 2022)

Ward
Count of clients with a financial crisis issue

| Local Authority Ward | Current Period | Previous Period | Change | % Change |
|---|---|---|---|---|
| Aethwy | 12 | 8 | 4 | 50% |
| Bodowyr | 10 | 5 | 5 | 100% |
| Bro Aberffraw | 20 | 10 | 10 | 100% |
| Bro'r Llynnoedd | 19 | 13 | 6 | 46% |
| Canolbarth Mon | 32 | 20 | 12 | 60% |
| Cefni | 15 | 4 | 11 | 275% |
| Crigyll | 9 | 7 | 2 | 29% |
| Lligwy | 18 | 15 | 3 | 20% |
| Parc a'r Mynydd | 20 | 14 | 6 | 43% |
| Seiriol | 19 | 21 | -2 | -10% |
| Talybolion | 16 | 8 | 8 | 100% |
| Tref Cybi | 50 | 32 | 18 | 56% |
| Twrcelyn | 37 | 21 | 16 | 76% |
| Ynys Gybi | 39 | 23 | 16 | 70% |
| **Grand Total** | 303 | 188 | 115 | 61% |




## 3. <u>Trosolwg o'r Gwasanaethau Tai</u>

a) Mae'r Gwasanaethau Tai yn comisiynu CAB Ynys Môn i ddarparu cymorth hawliau lles a chynhwysiant ariannol i drigolion Ynys Môn ac mae'r gwasanaeth hwn yn costio £80,000 y flwyddyn. Nid yw lefel y cyllid wedi newid ers dros 5 mlynedd.

b) Mae CAB Ynys Môn yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cael gafael ar gyllid ychwanegol i gynnal y gwasanaeth presennol a chynyddu ei gapasiti mewn argyfwng.

c) Mae gan y Gwasanaethau Tai dîm hawliau mewnol, Canolfan O'Toole a Thîm Cynhwysiant Ariannol mewnol.

d) Mae'r timau uchod yn darparu cymorth deiliadaeth niwtral i holl drigolion Ynys Môn.

e) Dros y 9 mis diwethaf, mae'r galw ar Ganolfan O'Toole, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn wedi cynyddu'n sylweddol.

f) Mae'r timau uchod yn rhan o ail gam cynllun caledi dewisol Llywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth ar y cynllun hwn i drigolion Ynys Môn ar gael yn atodiad un.

g) Mae gan Ganolfan O'Toole, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn restr aros o 3-4 wythnos am gymorth.

## 4. <u>Tlodi Bwyd ar Ynys Môn</u>

### 4.1 Banciau bwyd

a) Mae'r ddau fanc bwyd wedi adrodd cynnydd yn y galw.

b) Mae banc bwyd Amlwch wedi darparu **523** o barseli bwyd i drigolion ers Ionawr 2022. Yn ystod yr un cyfnod yn 2021, darparodd fanc bwyd Amlwch **416** o barseli bwyd. Dyma gynnydd o **+ 107** mewn parseli mewn blwyddyn.

c) Nid oes gennym ddata cymharol ar gyfer Banc Bwyd Ynys Môn.

d) Mae galwad gynhadledd fisol yn cael ei chynnal rhwng y banciau bwyd a swyddogion CSYM i ddarparu cymorth parhaus a delio ag agweddau megis galw, cyflenwadau, heriau a llwyddiannau.

e) Mae'r ddau fanc bwyd wedi gweld gostyngiad mewn rhoddion a chynnydd mewn gwariant er mwyn prynu cyflenwadau i gwrdd â'r galw. Mae'r ddau fanc bwyd wedi adrodd cynnydd mewn gwariant i ymorol am gostau petrol.

f) Yn ystod 2022-23 cafodd £22,400 o gyllid tlodi bwyd a ddyrannwyd i Ynys Môn gan CLlLC ei rannu rhwng y banciau bwyd i ymorol am gostau, yn cynnwys prynu tanwydd a bwyd.

**4.2 Bwyd Da Môn**

a) Mae Bwyd Da Môn (BDM) yn brosiect sy'n cynnig cymhorthdal i aelwydydd mewn argyfwng ariannol fel y gallant ymaelodi am ddim am gyfnod o hyd at 12 wythnos.

b) Mae hyn yn bosib yn sgil cais llwyddiannus am gyllid tlodi a diffyg diogeled bwyd gan CSYM i Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad mae £15,000 o nawdd wedi'i dderbyn a fydd yn ariannu'r prosiect am y 12 mis nesaf.

c) Mae cynllun cymhorthdal BDM yn darparu gwerth £25 o fwyd am hyd at 12 wythnos, bwyd a fyddai wedi mynd i safleoedd tirlenwi fel arall.

d) Erbyn wythnos 13, y nod yw annog aelodau i dalu am eu haelodaeth. Mae aelodau'n talu £5 yr wythnos ac yn cael gwerth hyd at £25 o fwyd.

e) Dros y 12 mis diwethaf, mae'r cynllun cymhorthdal wedi cefnogi oddeutu 80 o aelwydydd. Dim ond nifer fechan sy'n dewis ymuno pan fydd y cymhorthdal wedi dod i ben.

**4.3 Lles a Chynhwysiant Ariannol**

a) Fel y nodwyd uchod, mae Canolfan O'Toole, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn yn ymateb i anghenion hawliau lles a chynhwysiant ariannol trigolion Ynys Môn.

b) Mae'r gefnogaeth hon yn sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn derbyn unrhyw fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn, eu bod yn gallu cael mynediad at gyllid megis y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Taliad Tai Dewisol ynghyd ag atgyfeirio unigolion ar unwaith ar gyfer ymyraethau megis parseli banc bwyd.

c) Mae'r data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd bod 9 allan o bob 10 oedolyn wedi cael eu heffeithio gan y cynnydd mewn costau byw ac felly mae'n rhaid gofyn a oes gennym ni ddigon o adnoddau (The Rising Cost of Living and its Impact on Individuals in Great Britain, November 2021).

d) Flwyddyn ar ôl Blwyddyn, mae atgyfeiriadau wedi cynyddu 3.5% (o gymharu'r flwyddyn ariannol hon hyd yma â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf).

e) Derbyniwyd cyfanswm o 391 o atgyfeiriadau yn ystod Ch1 a Ch2 y llynedd o gymharu â 405 hyd at 06/10/2022. Er bod atgyfeiriadau wedi cynyddu dim ond 3.5%, mae'r ymyrraeth sydd ei angen ar gyfer pob atgyfeiriad wedi cynyddu'n sylweddol.

f) Eleni, mae'r tîm cynhwysiant ariannol wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau a phrosiectau costau byw ychwanegol, yn cynnwys atgyfeiriadau am gymhorthdal Bwyd Da Môn; Sesiynau Hwb Rhithiol Ynys Môn; Sioeau Teithiol; a'r cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf.

**4.4 Tlodi Tanwydd**

a) Mae'r elusen tlodi tanwydd cenedlaethol National Energy Action (NEA) yn gweithio i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gartref cynnes a diogel.

b) Mae'n bosib bod hyd at 45% (614,000) o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd ers i'r cap gynyddu ym mis Ebrill 2022. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifiad mwyaf diweddar ar gyfer **Ynys Môn, (31,555) (a gyhoeddwyd ar 23.9.2021),** mae hyn gyfystyr â **14,200** o aelwydydd ar yr Ynys.

**c)** Mae'n bosib bod hyd at 8% (115,000) o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd difrifol (angen gwario mwy na 20% o'u hincwm dim ond i gadw'n gynnes) - sydd gymesur â **2,524 o aelwydydd ar Ynys Môn mewn tlodi difrifol.**

d) Fe all y gronfa DAF ddarparu cymorth uniongyrchol fwy neu lai i aelwydydd cymwys er mwyn ymorol am gostau tanwydd. Rhaid gwneud cais drwy'n Tîm Cynhwysiant Ariannol neu CAB Ynys Môn.

e) Nid yw'r cymorth hwn ar gael i drigolion sydd ddim yn gymwys i fudd-daliadau/cymorth lles. Mae CSYM wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gronfa galedi dewisol cam 2 i sicrhau bod trigolion sydd yn wynebu tlodi mewn gwaith yn derbyn cymorth.

**5. <u>Digartrefedd</u>**

a) Yn 2021-22 derbyniodd CSYM 842 o gyflwyniadau digartref *(70 y mis ar gyfartaledd)*

b) Yn ystod 2022 derbyniodd CSYM 383 o gyflwyniadau digartref hyd yma *(77 o gyflwyniadau'r mis ar gyfartaledd)*

c) Roedd 74 o hysbysiadau adran 21 wedi dod o'r sector preifat. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod hyn o ganlyniad i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2022 a'r cynnydd yng ngwerth eiddo ar yr Ynys. Hefyd, mae landlordiaid preifat ar Ynys Môn yn dewis gwerthu eu heiddo oherwydd bod prisiau tai wedi codi. Os bydd y lefelau hyn yn parhau, rhagwelir y byddwn yn gweld cynnydd o 31% mewn cyflwyniadau digartref oherwydd bod trigolion Ynys Môn wedi gorfod gadel llety preifat.

d) Mae prinder tai rhent preifat fforddiadwy ledled Ynys Môn.

**6. <u>Casgliad</u>**

Mae'n amlwg bod nifer uchel o bobl ac aelwydydd yn wynebu trafferthion ariannol sylweddol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Mae llawer o waith yn digwydd ar y cyd i gynnig cefnogaeth lle bo modd, ond mae'n anodd ateb y galw.

Rhagwelir y bydd costau tanwydd yn cynyddu eto yn Hydref 2022, ac y bydd hyn yn arwain at galedi sylweddol. Mae'r canlyniadau tebygol yn cynnwys:

- Cynnydd mewn lefelau tlodi ymysg aelwydydd Ynys Môn
- Cynnydd mewn tlodi plant
- Cynnydd mewn trais domestig, sydd eisoes wedi cyrraedd lefelau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen
- Cynnydd mewn digartrefedd
- Cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion iechyd meddwl
- Cynnydd yn nifer y plant sy'n wynebu risg ac sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant
- Cynnydd yn y galw am Wasanaethau Cymorth Tai sydd eisoes y tu hwnt i'r cyflenwad presennol
- Cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau
- Cynnydd mewn trosedd ac anrhefn
- Galw a phwysau anghynaladwy ar sefydliadau sector gwirfoddol am ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol, ac o ganlyniad
- Cynnydd yn y galw am ymyraethau statudol
- Cynnydd mewn angen na ellir ei ddiwallu ac unigolion a theuluoedd anodd eu cyrraedd.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18/10/2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol 21/22 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Robert Ll Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Robin W Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | n/a |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor argymell:

- i'r Pwyllgor Gwaith cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2021/22 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac iddynt argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod Hydref 27ain, 2022 y dylid ei fabwysiadu.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol wedi'i ddrafftio i hysbysu ei ddarllenydd o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi gwireddu disgwyliadau ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF) a'r Cynllun Trosiannol (CT). Mae'r DGT a'r CT yn gynlluniau gwaith manwl sy'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Cyngor fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2017-22

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Adroddir bod nifer o'r meysydd yn y Cynllun Trosiannol a'r Dogfen Gyflawni Flynyddol naill ai wedi'u cwblhau neu ar amser i'w cwblhau. Sut mae'r gwersi wedi cael eu ystyried ar gyfer Cynllun y Cyngor newydd?

2. I ba raddau y gwelwyd sgil effeithiau'r Pandemig a hefyd yr argyfwng costau byw'n cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni yn erbyn yr amcanion strategol a mesurau perfformiad allweddol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

**5.2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**5.3** Mae'n ddiweddariad ar gynnydd y cyngor yn erbyn -

- Dogfen Cyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22
- Cynllun Trosiannol 22/23 (cyn belled).

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Amh.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Amh.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Amh.

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Gall oblygiadau ariannol cyrhaeddiad yn erbyn amcanion ei gyfarch yn natganiad cyfrifon y Cyngor 2021/22. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 (drafft) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022<br>• Cynllun Trosiannol 2022-23 |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL




# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22

# Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyntaf y cyngor newydd ers Etholiadau Lleol Mai 2022. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am roi eich ffydd ynom unwaith eto i barhau ar y gwaith da yr ydym eisoes wedi'i wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac yr ydym yn bwriadu ei barhau hyd at etholiadau Mai 2027.

Yr adroddiad hwn hefyd yw'r cyntaf i Dylan Williams, y Prif Weithredwr newydd, sydd wedi arwain gwaith y cyngor ers cael ei benodi ym mis Mawrth 2022. Hoffwn ddymuno'r gorau iddo yn ei rôl newydd gan adeiladu ar ei rôl flaenorol fel y Dirprwy Brif Weithredwr.

Hoffwn ddiolch i Annwen Morgan, y Prif Weithredwr blaenorol, am ei gwaith caled yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys arwain yr Ynys a staff y cyngor drwy'r pandemig coronafeirws byd-eang, gan sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn cael eu hamddiffyn cystal â phosibl a bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu rhedeg yn ystod cyfnod mor anodd. Dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Mae'n bwysig nodi ar ddechrau'r adroddiad hwn pa mor ddiolchgar wyf i'r holl staff a sefydliadau partner a sicrhaodd lwyddiant gwasanaethau'r cyngor i bobl Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.

Mae hi'n wych gweld faint o waith sydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn er gwaethaf cysgod y pandemig coronafeirws a'r pwysau ychwanegol a roddodd hyn ar y cyngor o ran cymorth parhaus i drigolion a busnesau lleol.

Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r cyngor yn ystod 2021/22 ac yn nodi'r hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y flwyddyn yn erbyn yr hyn a nodwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22. Mae hefyd yn adrodd ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd at ddiwedd mis Awst yn erbyn unrhyw waith arfaethedig ar y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23.

Byddwch hefyd yn gweld yn yr adroddiad pa mor dda y mae'r dangosyddion perfformiad a nodwyd wedi perfformio yn erbyn yr amcanion llesiant a hefyd pa ddangosyddion y mae angen mwy o waith arnynt yn y flwyddyn i ddod. Ar y cyfan, credaf fod y cyngor wedi perfformio'n anhygoel o dda.


Rwyf i a'm cyd-Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a Chynghorwyr wedi ymrwymo i barhau â'r daith lwyddiannus hon.


Drwy gydweithio fel y gwnaethon ni, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

DRAFT

## Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i'w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler Atodiad 1:







## Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22

## Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn



## Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Cyflawni Flynyddol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a gwblhawyd cyn y newid mewn blaenoriaethau yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad. Sylwch fod y diweddariadau yn erbyn y Cynllun Trosiannol yn adroddiadau cynnydd hyd at ddiwedd mis Awst gan fod y cynllun yn ei le tan Ebrill 2023.

### Cynllun Trosiannol

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

#### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Bryn Cefni, Llangefni<br>1. Gwaith yn mynd rhagddo<br>2. Disgwylir trosglwyddo'r Asedau ym mis Awst 2022<br><br>Penrhos, Caergybi<br>Mae'r gwaith wedi cychwyn ac yn datblygu'n amserol | |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys: | a) Trafodaethau'n parhau a'n presenoldeb mewn cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw er mwyn trafod y ffordd ymlaen a sicrhau'r llwyddiant o ddenu'r buddsoddiad i Ynys Môn<br>b) Yn gysylltiedig â chanlyniad pwynt a | |
| | c) Mae'r cais Hwb Hydrogen yn datblygu. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | d) Cwblhaodd Network Rail eu gwaith uwchraddio gwerth £2.4m ar gyfer yr Sied Drenau ym mis Mehefin 2022. Mae gwelliannau wedi'u cynllunio o dan gynllun y Porth Ymwelwyr yn 2022/23.<br><br>Mae Uwchgynllun Gorsaf reilffordd a ariennir gan LlC yn cael ei baratoi ac mae'r Cyngor Sir wedi cael cais gan NR/TfW i barhau i drefnu cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid yn rheolaidd. | |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**)<br>d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br><br>Newydd – | a) Wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. £75k wedi ei ddyrannu i 12 sefydliad | |
| | b) £87,000 o arian NDA wedi ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau e.e. Strategaeth Arwyddion Amlwch tuag at Porth Amlwch | |
| | c) Dylunio cysyniadol wedi'i gwblhau ar gyfer darn o dir ym Mhorth Amlwch sy'n berchen i'r Gymdeithas. | |
| | d) Mae'r gwaith hwn wedi cychwyn ac mae tir addas wedi ei glustnodi a phenseiri wedi eu comisiynu. | |
| | e) Hwb MonCF newydd wedi agor mis Ebrill 2022 | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Parhau i eistedd ar Fyrddau Rhaglenni amrywiol y Bid Twf a darparu cymorth technegol ar y prosiectau, er mwyn sicrhau buddion lleol i'r Ynys. | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyg Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ohirio cyflwyno gwiriadau tollau a ffiniau newydd tan ddiwedd 2023. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar yr angen i'r Cyngor sefydlu Tîm Iechyd Porthladdoedd newydd.<br><br>Er gwaethaf yr oedi, mae Rheolwr Iechyd Porthladd wedi'i benodi ac mae'n parhau i ymgysylltu â DEFRA a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cyngor yn barod ac yn cael adnoddau i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau newydd a neilltuir iddo. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw<br>a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Gwaith gwaelodlin wedi'i gwblhau  a'i ddefnyddio i gefnogi ceisiadau PMG (Cronfa Creu Lleoedd) ac Gronfa Codi'r Gwastad. | |
| | Mae arian wedi'i glustondi a cynlluniau PMG wedi'u cwblhau ac eithrio Canolfan Glanhwfa a Chlwb Cymdeithasol Biwmares (ar y gweill) & Plas Alltran (allan i dendr).<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'I gymeradwyo ar gyfer 20+ o brosiectau Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. | |
| | Cyllid CRF wedi ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021. Arolwg coed yn cael ei gynnal ledled y sir a gwaith gwaelodlin strategol Seilwaith Gwyrdd ar y gweill, sydd bellach i'w gwblhau erbyn Hydref 2022. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | a. Ymateb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Materion Cymreig i'r oblygiadau capasiti'r grid ar y sector ynni yng Nghymru.<br>- Cynhaliwyd sawl ymweliad o fewn y cyfnod gan gynnwys ymweliad a thrafodaeth gyda Greg Hands, y Gweinidog Gwladol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol). Cymerodd y Cyngor ran lawn yn y cyfarfodydd hyn er mwyn codi proffil Ynys Ynni.<br><br>- Cyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda BEIS er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion niwclear newydd yn Wylfa<br><br>-Swyddogion a'r Dirprwy Arweinydd wedi mynychu cyfarfod Nuleaf yng Ngwlad yr Haf a chynrychioli'r Cyngor. | |
| | b. Gwaith yn mynd rhagddo gyda datblygwyr prosiectau mawr.<br>- Morlais –symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu<br>- Fferm SolarTraffwll DNS – cais wedi ei dderbyn gan PEDW ac yn symud ymlaen I'r rhan nesaf o'r archwilio. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adroddiad Effaith Leol (LIR) a chytuno ar Ddatganiad o Dir Cyffredin (SoCG) gyda'r ymgeisydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gynghori ynghylch cynigion Budd Cymunedol.<br>- Fferm Solar Porth Wen – yr holl amodau cyn cychwyn wedi eu rhyddhau gan y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol<br><br>Nifer o PPAs newydd yn cael eu trafod a'u cytuno i sicrhau bod gan Ynys Ynni ddigon o gapasiti ac adnoddau i ymateb i'r galw am ddatblygiad mawr | |
| | c. Adroddiad Terfynol Adolygu Ynys Ynni wedi'i dderbyn gan Arup a'r canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor a Chynllun y Cyngor. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Codi'r Gwastad ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Gwaith ar y gweill gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu cynlluniau. Derbyniwyd 16 mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Adfer Cymunedau a'u hasesu<br><br>Asesiadau o'r mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Codi'r Gwastad wedi'i gwblhau a chytundeb gan y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cais ar gyfer adfywio Caergybi. | |
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Deialog barhaus gyda Busnes Cymru, Menter Môn ac MSParc mewn perthynas â'u trafodaethau a'u cefnogaeth i fusnesau ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Dechreuwyd ar y gwaith o weinyddu'r grantiau a chafwyd cymorth Menter Môn efo'r gweinyddu, oherwydd maint y gwaith. | |

## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd

| **Camau Gweithredu Allweddol / *Key Actions*** | **Diweddariad *Update*** | **CAG / *RAG*** |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Gwaith yn datblygu parthed y ddau gynllun gyda'r bwriad o weld y cynlluniau yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ystod tymor y gaeaf | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy a'r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Cychwynodd y cytundebau ar 18fed o Orffennaf ac mae cynnydd cyson wedi'i wneud. Mae'r dyddiad cwblhau bellach wedi ei newid i'r 2il Rhagfyr 2022.<br>Gwaith wedi cychwyn mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Priffyrdd<br>Mae'r gwaith i sefydlu'r pyllau wedi'i gwblhau ond nid ydynt yn cadw dŵr. Wrthi'n trafod ail-sefydlu'r pyllau ac opsiynau eraill.<br><br>Llwybr bordiau- gwaith cynnal a chadw rheolaidd oherwydd dirywiad a fandaliaeth<br>Wedi apwyntio ymgynghorwyr Ramboll i wneud y gwaith paratoi ar gyfer y prosiect<br>Gwaith heb gychwyn ond yn ystyried defnyddio ymgynghorywyr i gynorthwyo | |
| 3. Croesawu 4**0+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022<br><br>4. Cyflwyno mân welliannau i'r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu'n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Y gwaith wedi datblygu'n dda gydag arian CRF wedi'I ddefnyddio i hyfforddi 17 tywyswyr teithiau. Yn parhau i gydweithio efo LLC | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Y gwaith ymgynghori a cyflwyno I Lywodraeth Cymru am sel-bendith wedi'i gwblhau yn amserol. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Gwaith mapio wedi'i gwblhau ar draws yr holl wardiau.<br><br>Dechreuwyd ar y gwaith o grynhoi ac amlygu'r dystiolaeth a gasglwyd.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau ward, mae cynghrair Llifon bellach wedi rhannu'n 2 Gynghrair, sef Bro Llynnoedd a Chrigyll.<br><br>Mae cynghrair Lligwy wedi cytuno ar ei blaenoriaethau.<br><br>Mae cynghrair Aethwy ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda'r gymuned ynglŷn â'i blaenoriaethau. | |

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys

| Camau Gweithredu Allweddol / | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae gennym 49 o aelwydydd mewn llety argyfwng<br><br>Yn ystod Chwarter 4 2021/22 roedd 25 o aelwydydd wedi symud i dy cymdeithasol neu breifat | |
| Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Mae Cynllun Tuag at Sero Net 2022 – 2025 wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ar 10 Mawrth. | |
| Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Hyd at 13.9.22<br><br>• 34 o dai newydd wedi cwblhau 16 o dai newydd ar safle<br>• 61 o dai newydd ar y gweill (mynd drwy'r broses cynllunio)<br>• 39 o dai newydd ar fin cychwyn (wedi cael eu cymeradwyo)<br>• 5 tŷ ar fin cwblhau (cyn tai Cyngor)<br>• 13 o gyn tai Cyngor yn cael eu hadnewyddu<br>• 7 o dai i'w adnewyddu ar y gweill - contract yn cael ei baratoi<br>• 5 o cyn dai Cyngor wedi prynu | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Cartref Clyd Caergybi – CIW registration granted. Transition programme commencing. Staff have been recruited.<br>Haulfryn, Llangristiolus – initial plans have been tendered on Sell2wales<br>Cartref Clyd Rhosybol – Work programme has commenced and due to be finished by September.<br>CIW registration to be submitted. | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Datblygiadau yn parhau o ran cynnydd darpariaeth Gofal Ychwanegol newydd ym Mhorthaethwy.<br>- Penseiri, Peiriannydd a Syrfëwr Meintiau wedi'u penodi. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Mae'r fanyleb ar gyfer trefniadau cytundebol newydd wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu<br>• Trafodaethau gyda chaffael mewn perthynas â thempledi tendro<br>• Gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd yn y gymuned<br>• Cwblhawyd buddsoddiad mewn cyfleusterau hygyrch yn ardal Caergybi a Llangefni. Mae cais grant pellach wedi'i gyflwyno ar gyfer Amlwch. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Yn dilyn adolygiad People2, mae gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau ar ddadansoddi data mewnol (cynlluniau gofal a chytundebau)<br>• Bydd angen ailasesu pob prosiect byw â chymorth gan gynnwys gofal a rennir yn barod ar gyfer gweithdrefnau ail-dendro.<br>• Seydlwyd grŵp prosiect i roi ffrydiau gwaith ar waith i'w datblygu. | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | • Tir wedi'i brynu<br>• Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r Achos Busnes Llawn wedi'i dderbyn<br>• Cynllunio yn ei le<br>Dechrau'r gwaith adeiladu diwedd 2022 / dechrau 2023 a chwblhau erbyn Awst 2024 | |

DRAFT

# Dogfen Cyflawni Blynyddol

Isod mae canlyniadau rhai o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y cyngor a oedd yn flaenoriaethau o dan y Ddogfen Gyflawni Flynyddol cyn i'r Cynllun Trosiannol ei ddisodli fel ein cynllun gwaith

## 1. Amcan Llesiant 1 - Sicrhau y gall pobl ynys môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Parhau i gefnogi ein **hysgolion** i ddatblygu fel **sefydliadau sy'n dysgu**, gan sicrhau amgylcheddau dysgu cynhwysol, a hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu gorau posib ar gyfer pob dysgwr | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu'r **Strategaeth Atal corfforaethol** i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc yn ffynnu ac yn gwireddu eu potensial hirdymor | Wedi'i gwblhau | |
| Ymdrechu i gynyddu'r ansawdd a'r nifer o bobl sy'n ymgeisio am rolau **arweinyddiaeth yn ein hysgolion** | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu cyfleoedd i breswylwyr ac ymwelwyr gymryd rhan a defnyddio cyfleusterau hamdden trwy weithredu **Cynllun Adfer Môn Actif** pan fydd yn ddiogel gwneud hynny | Wedi'i gwblhau a Chanolfannau Hamdden yn ôl yn gweithredu fel arfer | |
| Datblygu **strategaeth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion** fel bod ystyriaethau Iechyd a Lles wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhob ysgol | Wedi'i gwblhau | |
| Adeiladu ar y **gronfa o wirfoddolwyr** sydd wedi'i sefydlu yn ein cymunedau ers y pandemig ac yn ceisio sefydlu mwy o **gynlluniau tro da yn ein cymunedau** | Wedi'i gwblhau - Medrwn Môn oedd yn arwain y fenter hon drwy gydol y pandemig coronafeirws. Maent yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gwirfoddolwyr. | |
| Adolygu ein ffyrdd o ymgysylltu â'n **tenantiaid** i sicrhau bod **llais y cwsmer yn cael ei glywed** wrth gynllunio'r gwasanaethau a gynigir i'n tenantiaid | Wedi'i gwblhau | |
| Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sefydliadau'r 3ydd Sector, Cyngor ar Bopeth a chyrff eraill i sefydlu **menter Bwyd Da Môn** ar gyfer trigolion Ynys Môn er mwyn ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd a lleihau faint o wastraff bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi | Wedi'i gwblhau | |

DRAFT

## 2. Amcan Llesiant 2 - cefnogi oedolion a theuluoedd bregus fel eu bod yn gallu bod yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Cynyddu lefelau cyfranogiad yn y **modelau hybiau cymunedol** trwy hyrwyddo a datblygu'r hybiau a gynhelir ledled yr Ynys | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Datblygu'r **rhaglen Cysylltu Bywydau** i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a gwella gofal seibiant i ofalwyr | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i wreiddio'r 3 **Thîm Adnoddau Cymunedol**, a leolir yn **Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll**, a fydd yn dod â staff y Cyngor a staff Betsi Cadwaladr ynghyd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted ag y bo modd. | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i **recriwtio gofalwyr maeth** yn Ynys Môn fel y gall Plant sy'n Derbyn Gofal barhau i fyw yn eu cymunedau pan na all eu rhieni ofalu amdanynt | Rydym wedi cyflawni yn erbyn y targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae angen i ni barhau i recriwtio mwy o ofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal Ynys Môn | |
| Datblygu **gwasanaethau seibiant** ymhellach **ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd** | Wedi'i gwblhau | |
| Ymgeisio am gyllid grant allanol i gefnogi cynlluniau i ddatblygu **hen safle Ysgol Llaingoch, Caergybi**, ar gyfer **adeiladu cartrefi newydd** | Wedi'i gwblhau | |
| Cwblhau'r gwaith i alluogi tenantiaid i gysylltu'n ddigidol trwy gyflwyno **system Gwasanaethau Digidol** a fydd yn caniatáu i denantiaid gyfathrebu â ni yn ddigidol, gan gynnwys ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion gofal cwsmer, gwaith gofal a thrwsio, i dalu rhent a chyflwyno unrhyw gwynion am ein stadau. | Wedi'i gwblhau | |

DRAFT

## 3. Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n diogelu ein hamgylchedd naturiol

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Darparu **pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar safle Parcio a Theithio Llanfairpwll** yn ogystal â nodi safleoedd addas eraill ar gyfer y cyfleusterau hyn ledled yr ynys | Wedi'i gwblhau – Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym maes Parcio a Theithio Llanfairpwll yn ogystal â safleoedd eraill ar draws yr Ynys | |
| Parhau â'n bwriad a'n cyflawniad o ran sicrhau bod dros **70% o'r holl wastraff cartref yn cael ei ailgylchu erbyn 2025** sydd, yn ei dro, yn golygu nad oes angen i wastraff fynd i safleoedd tirlenwi | Mae cyfraddau ailgylchu tua 62.5% ar ddiwedd y flwyddyn 2021/22. Gweler tudalen 24 am fwy o wybodaeth | |
| Datblygu ac yn gweithio ar **gynlluniau lliniaru llifogydd** mewn safleoedd yn **Nwyran, Amlwch, Caergybi, Porthaethwy, Llanfairpwll, Y Fali a Thraeth Coch**, yn ogystal â chydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun lliniaru llifogydd **Llangefni** | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i gymell a chefnogi'r swyddogaethau **Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden** a chefnogi staff i wneud y **defnydd mwyaf posib o'r Gymraeg** yn ogystal â pharhau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff sy'n gallu siarad Cymraeg | Wedi'i gwblhau – Gweler Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg | |
| Gwneud paratoadau ac yn aildendro'r **contract prydau ysgol** ar draws yr ynys gan sicrhau bod bwydlen iach a maethlon yn barod erbyn Medi 2021 | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i symud ymlaen â'r rhaglen buddsoddiadau cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd defnydd ac apêl **Canolfannau Hamdden** y Cyngor Sir yn ogystal â datblygu cynlluniau ar gyfer cae **3G newydd yng Nghaergybi** | Wedi cyflwyno caeau 3G newydd yn ogystal â champfeydd ar eu newydd wedd yn Amlwch a David Hughes | |
| Parhau ar ein taith ddigidol trwy hwyluso darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein sy'n caniatáu i ddinasyddion ofyn, adrodd a thalu am wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt o unrhyw leoliad, dyfais neu sianel ddigidol trwy ddatblygu ein **System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid** ymhellach a gostwng nifer y ffurflenni sydd ar gael ar bapur yn unig | System CRM newydd wedi'i phrynu ac yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd gan TGCh | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Dechrau gweithredu **Porth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw** i roi gwasanaeth hwylus ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid a fydd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda biliau electronig | Wedi'i ohirio nes bydd y System CRM newydd yn cael ei rhoi ar waith | |
| Sicrhau bod athrawon a disgyblion yn gallu cael mynediad i **wasanaethau ar-lein cyflymach** trwy gynyddu'r cyflymder lawrlwytho band llydan i 300Mb /e yn ein **hysgolion uwchradd** | Wedi'i gwblhau | |
| Cynyddu'r **gymhareb cyfrifiaduron i ddisgyblion** mewn ysgolion trwy ddefnyddio'r **grant HWB** gan Lywodraeth Cymru | Wedi'i gwblhau | |
| Newid hen gerbydau fflyd y Cyngor am **gerbydau trydan neu LPG** mwy newydd lle bo hynny'n briodol ac yn nodi safleoedd Cyngor lle gellir gosod **Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan** | Wedi'i gwblhau | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â'r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arwain ynghylch y ffordd ymlaen





DRAFT

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad

Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol ac effaith y pandemig Covid-19. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (92%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro ar draws yr adran wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 8.73 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob Cyfnod Amser Llawn (CALl) yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl.

Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd o fewn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon, ac ar y cyfan, yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 66% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaethol ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'n galonogol bod 39 allan o'r 41 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod, ac roedd 7 o'r 13 ymateb ysgrifenedig a anfonwyd yn hwyr wedi'u cytuno â'r achwynydd cyn canfod eu bod yn hwyr, fel y nodwyd yn y protocol cwynion.

Mae gwaith wedi dechrau ac yn parhau o ran gwella bodlonrwydd y cwsmer ar draws gwasanaethau am y flwyddyn i ddod.

Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £4.688m ar hyn o bryd, ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gwahanol ac mae'r Cyngor wedi derbyn llawer iawn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio gyda'r pandemig a'r cyfnod adfer. Y cyllid ychwanegol hwn yw'r prif reswm pam bod tanwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn ac mae mwyafrif y Cynghorau eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg.





DRAFT

Mae'r sefyllfa alldro derfynol wedi caniatáu i'r Cyngor gynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a hynny ar ôl caniatáu y defnydd o £3.5m o falansau cyffredinol ar nifer o brosiectau. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn dal i fod yn uwch na'r lefel isaf a argymhellir ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref.

Mae'r cynnydd cyfredol mewn tâl a phrisiau yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch costau'r Cyngor yn 2022/23 a'r cyllid a fydd ei angen yn 2023/24.

Mae tanwariant ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yn £33.457m. Mae £11.242m o'r tanwariant hyn oherwydd llithriad a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.

Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid. Mae'n galonogol hefyd nodi bod staff yr Awdurdod, yn ystod cyfnod llawn heriau, yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau, a hynny i safon briodol.

Er bod y data yma'n rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad y Cyngor Sir ac yn gallu dangos bod safonau priodol yn cael eu bodloni, mae hefyd yn galonogol nodi bod mwyafrif (91%) y dangosyddion perfformiad penodol o fewn yr adranhon yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed.

Mae hyn yn welliant ar y perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

DRAFT

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

Mae'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn erbyn **Amcan Llesiant 1** wedi perfformio'n dda ac yn uwch na'r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.




Tudalen 48

Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff

Gwyrdd

84%

Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff – a chanddo lefel berfformiad o 84% yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn gan y cafodd y cynllun ei atal y llynedd o ganlyniad i'r pandemig, a dyma'r tro cyntaf i gleientiaid gwblhau'r rhaglen ers ei hailddechrau.

DRAFT

DRAFT

**Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd**

Gwyrdd

**91 eiddo**

Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd - sydd bellach yn gyfanswm o 91 eiddo sydd wedi'u hadfer i ddefnydd yn erbyn targed blynyddol o 50. Mae'n galonogol nodi bod y perfformiad yma yn sylweddol uwch (82% yn uwch) na'r targed o 50 eiddo am y flwyddyn. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi profi i fod yn fuddiol yma, ac mae'n gadarnhaol bod 91 yn llai o eiddo gwag o fewn ein cymunedau.

Nid oedd yn bosib casglu gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgolion cynradd ac uwchradd (dangosydd 1 a 2) yn yr un modd ag arfer eleni oherwydd y pandemig Covid.  Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu pob math o ffigurau yn ystod y flwyddyn i fesur absenoldebau. O'r ffigurau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfartaledd roedd 86.5% o ddisgyblion (o ysgolion cynradd ac uwchradd) yn yr ysgol yn ystod wythnos olaf tymor y gaeaf (Ebrill 4ydd -8fed). Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nid oes gwybodaeth ar gael ar gyfer y dangosyddion canlynol –


Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – ni chynhaliwyd asesiadau yn ystod 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws;

Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd - cafodd yr asesiadau eu haddasu ar gyfer y flwyddyn i sicrhau bod gwasanaethau'n adrodd ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn hytrach na'r targedau a osodwyd a oedd yn anymarferol oherwydd pandemig y coronafeirws;

Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) – mae'r oedi o ran y gwaith gosod meddalwedd wedi effeithio ar ein gallu i weithredu elfen boddhad tenantiaid y feddalwedd yn ystod  2021/22.

## Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2** yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond tri ddangosydd (20%) sydd yn Felyn tra bo 11 dangosydd (73%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.




Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

Gwyrdd

**80.95%**

Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

Gwyrdd

**92%**

Mae'r dangosyddion Digartrefedd ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi dangos perfformiad da hefyd, gyda'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targed. Bu defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru'n hanfodol o ran caniatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau bod ein pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.

Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn Wyrdd yn erbyn eu targed. Ar adeg pan fu'r Gwasanaeth o dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig, mae hyn yn galonogol ac yn argoeli'n dda ar gyfer 2022/23.

| Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd 94.78% | Gwyrdd 64.85% | Gwyrdd 14.33 | Gwyrdd 96.10% |

Nodir gennym fod un dangosydd wedi dirywio yn erbyn targed am y flwyddyn –


| Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn |
|---|
| Ambr 318 Diwrnod |

Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn yn AMBR gyda pherfformiad o 318 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Roedd perfformiad fymryn yn well chwarter yn erbyn chwarter am y ddwy chwarter olaf, fodd bynnag mae'n waeth na'r 258 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2020/21.

Roedd 14 o blant (o gyfanswm o 48 ar y gofrestr) sydd wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis. Roedd yr achosion hyn yn gymhleth o ran eu natur ac mae llawer o'r plant hyn yn destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, tra bo'r gweddill yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol. O ran pob achos sy'n cyflawni'r meini prawf llym ar gyfer eu tynnu oddi ar y gofrestr, fe gawsant eu tynnu o oddi ar y gofrestr, neu bydd hynny'n digwydd pan fo'n briodol i wneud hynny.

DRAFT

## Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol




Roedd ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion **Amcan Llesiant 3**, hefyd yn dangos cynnydd da yn ystod y flwyddyn. O'r deg dangosydd â thargedau dim ond dau (20%) oedd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.



DRAFT

Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mae tri o'r dangosyddion rheoli gwastraff (dangosydd 31,33 a 34) wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau ystod y flwyddyn. Roedd 95.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân ac mae'n galonogol nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.25 diwrnod.

| Canran y strydoedd sy'n lân | Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon |
|---|---|
| Gwyrdd 95.5% | Gwyrdd 0.25 Diwrnod |

Roedd trigolion wedi cynhyrchu llai o wastraff gweddilliol na'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag maent wedi cynhyrchu ychydig bach mwy o wastraff, 223kg y pen o'i gymharu â 214kg y pen yn 2020/21. Mae'n hanfodol bod trigolion yn cynorthwyo i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy os ydym am gyrraedd y targed i ailgylchu 70% o wastraff yr Ynys erbyn 2025

| Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person |
|---|
| 233kg (Gwyrdd) |

Roedd y tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag Arolygon cyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac maent yn dangos gwelliant o'i gymharu â 2020/21. Mae'r gwelliant mwyaf i'w weld yng nghyflwr ein ffyrdd A lle mai dim ond 3% oedd mewn cyflwr gwael yn 2021/22 o gymharu â 4.6% yn 2020/21

| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael |
|---|---|---|
| 3.0% (Gwyrdd) | 2.8% (Gwyrdd) | 8.2% (Gwyrdd) |

Nodwn bod dau ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n Goch neu'n Ambr.

Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn goch gyda pherfformiad o 62.39% yn erbyn targed uchelgeisiol lleol o 70% a targed statudol cenedlaethol o 64% ar gyfer y flwyddyn.

Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio

Coch

62.39%

Mae'r perfformiad hwn fymryn yn is na'r 62.96% a welwyd ar ddiwedd 2020/21 ac yn lleihad pellach wrth gymharu a perfformiad a gostyngiad pellach o gymharu â pherfformiad blynyddoedd blaenorol (67.26% yn 2019/20, 69.86% yn 2018/19 a 72.2% yn 2017/18).

Dros 12 mis yn ôl mynegodd y swyddogion a'r aelodau etholedig bryderon o ran cyrraedd y targedau dros dro a thymor hwy (70% erbyn 2024/25). Am y rheswm hwn, cafodd WRAP Cymru eu gwahodd i gynorthwyo'r Cyngor i ddadansoddi ei berfformiad gweithredol a gwneud argymhellion i'w helpu i gyrraedd y targedau gofynnol. **Bydd WRAP Cymru'n ymweld â'r Ynys i gynnal asesiadau ymarferol a rhannu canlyniadau yn ystod 2022/23.**

**Bydd cyrraedd y targed statudol cenedlaethol o 70% erbyn 2024/25 yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio penodol.**

Roedd y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd yn goch gyda 50% yn erbyn targed o 65%.

Prosesodd y Cyngor 886 o geisiadau cynllunio yn ystod 2021/22. I'r cyd-destun, mae'r mesur hwn yn ymwneud â 10 apêl yn unig a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bach iawn ac mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 5 allan o 10 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio canfod unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.**


Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd

Coch

50%

DRAFT

## Perfformiad Cyffredinol




Dengys ein lefelau perfformiad o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer yr holl ddangosyddion cyffelyb (cyfanswm o 30) bod 18 (60%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 10 (33%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

Tudalen 55

Ar y cyfan mewn blwyddyn anodd arall, mae'n galonogol adrodd bod 75% o'r dangosyddion i fonitro yr Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn



# Atodiad 1

## Sut mae'r cyngor yn mesur ac yn dadansoddi perfformiad

### Beth yw Rheoli Perfformiad?

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu'r blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion gwasanaeth ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd. Gyda staff yn cael eu hailgyfeirio a'u hail-ddyrannu i weithio'n uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â'r pandemig yn ystod y flwyddyn, roedd rheoli perfformiad yn her a mabwysiadwyd agwedd bragmatig trwy arweinyddiaeth yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

### Cynllun y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor wedi nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

Mae'n llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith y mae'r cyngor yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu gwasanaethau
- dylanwadu ar y ffordd y mae'r cyngor yn llunio'r gyllideb yn flynyddol, a
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu'r hyn y mae'r cyngor yn ei gyflawni'n flynyddol.

### Sut a phryd y caiff ei fonitro?

Cyflawnir amcanion llesiant y Cyngor drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cynllun Trosiannol dilynol. Fel arfer, caiff y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y cyngor yn canolbwyntio ar eu gwireddu yn ystod y 12 mis nesaf. Datblygwyd y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23 fel cynllun adfer yn dilyn y pandemig coronafeirws a'r angen dilynol i ail-werthuso'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a disodli blaenoriaethau'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol o fis Ionawr 2022.

Cawsant eu monitro trwy amrywiaeth o sianeli gwahanol, gan gynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; a
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Mae adroddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yna’n cael eu hystyried gan y swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna gan y Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'r cynnydd y mae'r cyngor yn ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a llywio cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid cysylltiedig gan roi hyder i Aelodau etholedig ac Uwch Arweinwyr bod y buddion a ragwelir i'r Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu ac mae sicrhau cyflymder newid yn allweddol.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob Gwasanaeth gynnal dau Adolygiad Gwasanaeth y flwyddyn a gynhelir ac a reolir yn gorfforaethol:

1. Adolygiad Gwasanaeth Ariannol

   Ymgymerwyd â rhagfynegi arbedion gwasanaeth a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo'r broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad Gwasanaeth Perfformiad a Risg

   Ceisiadau i wasanaethau gwblhau hunanasesiad gwasanaeth i nodi sut mae'r Gwasanaethau yn perfformio yn erbyn amcanion allweddol. Fe'i defnyddir i roi sicrwydd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach y Cyngor a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Mae’r cerdyn sgorio corfforaethol yn nodi’r cynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol sy’n dangos gweithrediad llwyddiannus gweithgareddau  o ddydd i ddydd y Cyngor yn glir. Mae'n helpu i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth o ddangosyddion sy’n cael ei defnyddio i ddrafftio’r adroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau lliniaru y mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi'u nodi i ysgogi a sicrhau gwelliannau. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad ar draws gwasanaethau yn cael ei reoli'n effeithiol.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Hydref, 2022** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2022/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2022/23<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2022/23 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2022→ Ebrill, 2023**
**[Fersiwn dyddiedig 11/10/22]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2022 (31/05/22)** | **Mai, 2022 (31/05/22)** |
| Ethol Cadeirydd: 2022/23 | Ethol Cadeirydd: 2022/23 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 | Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 |
| | |
| **Mehefin, 2022 (20/06/22)** | **Mehefin, 2022 (21/06/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2021/22 |
| Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau | Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau |
| | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch 4 2021/22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Medi, 2022 (26/09/22) – Ch1** | **Medi, 2022 (26/09/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2022/23 | Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2021/22 |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Hydref, 2022 (19/10/22)** | **Hydref, 2022 (18/10/22)** |
| Tlodi a'r Heriau Costau Byw | Arolwg Estyn o'r Awdurdod Addysg Lleol<br>• Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg<br>• Adborth y Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2021/22 | Rhaglen Arfor |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Tachwedd, 2022 (22/11/22) - Ch2** | **Tachwedd, 2022 (23/11/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol Diogelwch Cymunedol: 2021/22 |
| Data Poblogaeth: Cyfrifiad 2021 | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2021/22<br>• Adroddiadau Cynnydd Ch1 a 2:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu (eitem i'w chadarnhau) |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2021/22 (eitem i'w gadarnhau) |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) – Cyllideb 2023/24** | **Ionawr, 2023 (17/01/23)** |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb refeniw) -cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb gyfalaf) – cynigion drafft cychwynnol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Cynllun y Cyngor: 2023-2028 | |
| Arolwg AGC: Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Gwerthuso Perfformiad (Hydref, 2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Chwefror, 2023 (28/02/23) – Cyllideb 2023/24** | **Chwefror, 2023 (07/02/23)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2023/24 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (Haf, 2022) |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Mawrth, 2023 (14/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2023 (15/03/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2021/22 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2023/24 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ebrill, 2023 (19/04/23)** | **Ebrill, 2023 (19/04/2023)** |
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli AHNE 2021/25 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Strategaeth Gwasanaethau Clinigol |
| Polisi Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol 2021/26 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cyfrifiad 2021 | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Cynllun Cyrchfan |
| | Eitemau Addysg o Bwys Strategol –<br>• Gwella Ysgolion – fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd<br>• Gwaith Partneriaethol – Adroddiad Blynyddol GwE: 2021/22 |

| | |
|---|---|
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad cynnydd ar waith y Bwrdd<br>• Cynllun Llesiant Drafft 2023 ymlaen |